

Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio: Dathlu ein Llwyddiannau



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwaith a wnaed gan Dasglu AAP hyd yn hyn...

Gweithredu Cadarnhaol / Camau Gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wyrddroi y dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i hyrwyddo cadernid ecosystemau drwy Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), a gyflwynodd ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (dyletswydd Adran 6) gwell ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau sy'n berthnasol i Gymru.

Gwenyn Iach

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gweinyddiaethau datganoledig eraill yn y DU i gefnogi'r Uned Wenyn Genedlaethol i ddarparu y Rhaglen Iechyd Gwenyn yng Nghymru i sicrhau poblogaeth gynaliadwy a iach o wenyn mêl ar gyfer peillio a chynhyrchu mêl yn y DU.

Creu Cynefinoedd Pryfed Peillio

Mae Parc Gwledig Craig y Nos, ym Mannau Brycheiniog wedi cyflwyno dau gwch, sy'n cynnwys dros 30,000 o wenyn ac mae cynlluniau bellach i sefydlu mwy o gychod gwenyn ar safleoedd eraill Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae Buglife Cymru wedi dablygu Urban Buzz Caerdydd - rhan o brosiect peillio 8 dinas ledled y DU sydd wedi gwella dros 100 o safleoedd ar gyfer peillwyr ledled Caerdydd, gan drafod gydag awdurdodau statudol, ysgolion, grwpiau lleol a chymunedau.

Tystiolaeth ar gyfer Gwneud Penderfyniadau

Prosiect COBWEB: Prosiect i recriwtio dinasyddion fel gwyddonwyr yn ward Penparcau yn Aberystwyth i gofnodi y glöynod byw a'u hadnoddau bwyd gan ddefnyddio technolegau arloesol ar gyfer ffonau symudol ac ar y we. Wedi'u cynllunio ar y cyd â Fforwm Gymunedol Penparcau, cafodd rhywogaethau glöynod byw eu cofnodi yn yr ardal i lywio cynlluniau rheoli lleol ac i gynyddu'r diddordeb a'r dealltwriaeth o bwysigrwydd glöynod byw (a pheillwyr eraill) i iechyd amgylchedd naturiol Cymru.

Caiff y data sy'n cael ei gasglu yn ystod yr brosiect hwn ei rannu gyda sefydliadau cofnodion biolegol (Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol, Canolfannau Cofnodi Lleol) er mwyn helpu i'w dosbarthu a'u defnyddio ar gyfer amrywiol ddibenion o gynllunio i waith ymchwil amgylcheddol a gwneud penderfyniadau.

Codi ymwybyddiaeth

Caru Gwenyn / Bee Friendly oedd y cynllun cenedlaethol cydgysylltiedig cyntaf o'i fath ac mae sicrhau bod Cymru yn wlad gyfeillgar i Beillwyr yn ganolog iddynt. Mae cyfanswm o 45 o sefydliadau ledled Cymru wedi cyrraedd statws Cyfeillgar i Wenyn ac maent yn cynnal gweithgareddau positif i beillwyr.

Wedi'i weinyddu gan Cadwch Gymru'n Dacrus, mae'r rhaglen Eco-Sgolion yn fenter bwysig yn rhyngwladol, sy'n cynnig fframwaith delfrydol i gefnogi datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang mewn ysgolion. Mae Eco-Sgolion yn ymestyn y dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn datblygu dinasyddiaeth gyfrifol gartref ac yn y gymuned yn ehangach.